

Y Tyst

Braf oedd gweld adroddiad a lluniau o daith criw 'Dwylo Prysus' Carmel i Ben Llŷn yn ystod Gwyliau'r Pasg ar dudalen flaen *Y Tyst* yr wythnos ddiwethaf.

Coleg Y Bala

Mae'r hysbyseb a welir dros y ddalen yn dangos rhai o'r cyrsiau a gynhelir yng Ngholeg y Bala yn ystod yr haf.

Ar gyfer plant 8 i 12 oed – Anrhefn Awst.

Ar gyfer disgyblion iau ysgol uwchradd (Blynyddoedd 7–11) – Cwrs Ieuenctid.

Ar gyfer ieuenctid dros 15 oed – 'Souled Out'.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Coleg y Bala. Gellir archebu lle ar unrhyw un o'r cyrsiau trwy ffonio'r Coleg ar 01678 520565.

Y Ffordd

Cynhelir cyfarfod nesaf cwrs 'Y Ffordd' yn festri Carmel am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Mehefin 14.

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch nos Wener, Mehefin 9.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 28

5.00 p.m. - Y Parchg Mererid Williams

Mehefin 4 - Y Sulgwyn

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 11

5.00 p.m. - Mr Glyn Owen

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mehefin 4: Gwasanaethir yn yr oedfa am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mehefin 4: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg R O Jones, Gaerwen. Ni fydd Ysgol Sul oherwydd y gwyliau.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 4: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mehefin 4: Ni fydd Ysgol Sul. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

CARMEL

Nos Wener, Mehefin 2: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 4: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch; a gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Mai 29: Ni fydd Cyfarfod Gweddi.

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mehefin 4 - Y Sulgwyn

10.00 a.m. - Y Parchg R O Jones


5.00 p.m. - Y Parchg R O Jones

Mehefin 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 731: Dydd Sul, 28 Mai, 2017

O'r galon

ei gilydd; a thros y dyddiau diwethaf clywyd y ddau hyn a llu o wleidyddion eraill yn gwneud yr union beth yna.

Ond nid dyna mae Michael Fallon am i chi gredu. Wedi condemnio'r lladd, awgrymodd Jeremy Corbyn na ellir anwybyddu'r cysylltiad posibl rhwng y 'Rhyfel yn erbyn Terfysgaeth' mewn gwledydd fel Irac a Lybia a Syria a'r ymosodiadau terfysgol yng ngwledydd y Gorllewin ac yma ym Mhrydain. Ac awgrymodd hefyd nad yw'r 'Rhyfel' hwnnw yn gweithio a bod rhaid wrth ffyrdd newydd o ddelio â'r derfysgaeth sy'n bygwth ein byd. Nid oedd Corbyn yn awgrymu am eiliad fod esgus dros y lladd nos Lun; nid oedd yn awgrymu chwaith mai ar unrhyw beth a wnaeth unrhyw lywodraeth yr oedd y bai, ond ar y dyn a gariodd y bom ac unrhyw un a fu o bosibl yn ei helpu.

Pechod yw problem fwyaf y byd, ac mae'r pechod hwnnw ynom i gyd. 'O'r galon' meddai Iesu 'y daw cynllunio drygionus, llofruddio' a phob math o bethau drwg eraill. Rydym yn pechu, meddai, am fod ein calonnau'n ddrwg. Ond mae amgylchiadau a phob math o ddigwyddiadau'n tanio'r pechodau neilltuol y bydd pobl yn eu gwneud. Mae pob math o bethau hefyd, yn cynnwys y cyfiawnder a'r daioni a geir mewn cymdeithas, yn atalfa ar bobl rhag gwneud drygioni. Mae Corbyn yn deall hynny ac yn cydnabod nad yw drygioni'n digwydd mewn gwagle. Ac yn gyfan gwbl annheg, mae'n cael ei gondemnio am dynnu sylw at y peth.

Dydi Manceinion ddim yn bell oddi wrthym yn y rhan hon o Wynedd. Ond rywsut, nos Lun diwethaf roedd hi'n nes o lawer. Fwy na thebyg bod rhai ohonoch wedi bod mewn cyngerdd neu ddigwyddiad arall yn yr union Arena y lladdwyd 22 o bobl a phlant ac yr anafwyd degau'n ddifrifol gan yr hunan fomiwr ar ddiwedd y cyngerdd nos Lun. Mae'n bosibl iawn fod rhai ohonoch yn adnabod rhywun a oedd yno, neu hyd yn oed eich bod chi eich hun yno. Pan fo'r erchyllterau hyn yn digwydd o fewn taflid carreg i ni mae'n naturiol ein bod yn dychryn fwy fyth. Gweddiwn dros y teuluoedd a gollodd anwyliaid; gweddiwn dros y bobl a'r plant sy'n dal mewn ysbyty, a'u teuluoedd hwythau; a gweddiwn dros bawb a anafwyd a phawb sydd wedi eu hysgwyd a'u dychryn gan yr ymosodiad mileinig diweddaraf hwn.

Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros yr hyn a ddigwyddodd y noson o'r blaen. Mi fyddai pawb a oedd yn yr Arena yn dweud hynny, ac mae pawb ohonom ninnau'n sicr yn cytuno. Ac mae'n sicr fod y gwleidyddion sydd yng nghanol eu hymgyrchu etholiadol yn cytuno nad oes modd cyfiawnhau ymosodiadau annynol sy'n niweidio a lladd plant a phobl ifanc ac oedolion cwbl ddiwied. Pa blaid bynnag maen nhw'n perthyn iddi, maen nhw i gyd yn condemnio'r lladd ac yn datgan nad oes gyfiawnhad drosto. Mae hynny'n wir am Michael Fallon, Ysgrifennydd Amddiffyn Llywodraeth San Steffan ac am Jeremy Corbyn, Arweinydd y Blaid Lafur, fel

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Clyw fy llais, O Dduw, wrth imi gwyno; achub fy mywyd rhag arswyd y gelyn, cuddia fi rhag cynllwyn rhai drygionus a rhag di-chell gwneuthurwyr drygioni – rhai sy'n hogi eu tafod fel cleddyf, ac yn anelu eu geiriau chwerw fel saethau, i saethu'r dieuog o'r dirgel, i saethu'n sydyn a di-ofn. Y maent yn glynu wrth eu bwriad drwg, ac yn sôn am osod maglau o'r golwg, a dweud, "Pwy all ein gweld?" Y maent yn dyfeisio drygioni, ac yn cuddio'u dyfeisiadau; y mae'r galon a'r meddwl dynol yn ddwfn!' (Salm 64:1-6).

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch. Susan Williams fydd yn arwain yr oedfa heddiw, a diolch yn fawr iddi am ei gwaith paratoi a'i harweiniad i ni bob amser. Mae'r oedfaon hyn yng ngofal Susan bob amser yn fendithiol.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Mererid Williams,

Caernarfon. Croeso cynnes iddi, a diolch iddi am ei gwasanaeth.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch dan ofal y Gweinidog.

Nid oes Ysgol Sul yn Nhalybont heddiw. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Llanberis yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer Mrs Eirlys Lloyd Clarke yn ystod yr wythnos. Roedd Eirlys yn byw ym Manceinion ers blynyddoedd. Roedd yn 90 mlwydd oed. Anfonwn ein cofion at y teulu ym Manceinion ac yn Llanberis yn eu profedigaeth. Mae'n siwr y bydd amryw ohonoch yn Llanberis ei chofion ac yn ei hadnabod. Cynhelir ei hangladd ddydd Gwener, Mehefin 2.

Cymorth Cristnogol

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r holl gasglyddion am eu gwaith yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae eich help yn amhrisiadwy.

Pan fydd yr arian wedi ei gyfrif, rhown wybod i chi faint a gasglwyd eleni yn y gwahanol ardaloedd.

Cymanfa

Coleg Y Bala

CYRSIAU HAF 2017

19 67
CWRS IEUENCTID
COLEG Y BALA

ANHREFN
AWST

SO
Souled Out

Gorffennaf 31 - Awst 4
blynyddoedd 7-11

Awst 14 - 17
plant 8-12 oed

Awst 19 - 24
15+ oed
cwrs dwyieithog

I archebu eich lle neu am fwy o fanylion:
colegybala@ebcpcw.org.uk 01678 520565

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at Gymanfa Ysgolion Sul Annibynwyr Dosbarth Bangor-Bethesda a gynhaliwyd yng nghapel Carmel y Sul diwethaf.

Gobeithio cawn adroddiad yr wythnos nesaf.

Efe

Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi arferol yfory, ddydd Llun, Mai 29 gan ei bod yn Wyl y Banc.

Cynhaliwyd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yng Nghapel Caeathro ddydd Llun diwethaf. Cafwyd cyfarfod arbennig o ffrwythlon. Mae un neu ddau o bethau i'w cadarnhau yn ystod yr wythnos nesaf hon, ond y bwriad bellach yw hysbysebu o fewn y pythefnos nesaf am weithiwr newydd i olynu Andrew. Mi fydd rhai agweddau newydd i'r swydd, ac fe gewch wybod am y rheiny yr wythnos

nesaf gobeithio wedi i bopeth gael ei gadarnhau. Rydym yn hyderus fod yr elfennau newydd yn creu swydd gyffrous a deniadol i rywun a fydd am dystio i'r Arglwydd Iesu yn ein plith.

Bydd rhaid i chi aros i gael y stori a'r darlun llawn. Rydym yn gobeithio y byddwn wedi penodi Gweithiwr newydd erbyn canol Gorffennaf, i ddechrau'r gwaith ym mis Medi.

Ysgolion

Gan fy mod yn sôn am waith Efe, rwyf am ddiolch i Susan Williams am ei gwaith yn yr ysgolion ers i Andrew adael ei swydd ddiweddi Chwefror. Er mwyn cynnal cyswllt Efe â'r ysgolion tra nad oes gennym weithiwr llawn amser mae Susan wedi bod yn ymweld â'r ysgolion i gynnal gwasanaethau. Rwy'n gwybod ei bod yn mwynhau'r gwaith yn fawr. Dymunwn fendith Duw ar ei gwaith.